Y ddawn i sgwennu

(cyfle arall / penderfyniad)

"Mae'r ysgol yn ddiflas. Dydw i byth yn mynd ar gyfyl y lle eto." Bob gyda'r nos pan fyddai'n dod adref o'r ysgol dyna fyddai ei gŵyn, fel tiwn gron. Beth bynnag, pam oedd yn rhaid iddo fynd i'r ysgol ac yntau eisiau bod yn ganwr byd-enwog?

Yn y ddinas lle roedd yn byw roedd yna dŷ opera mawreddog. Byddai cantorion a pherfformwyr o bedwar ban byd yn ymweld â'r Tŷ Opera. Bob tro y câi gyfle byddai'r bachgen yn mynd yno ar ei ben ei hun i wrando ar y gwahanol operâu yn cael eu perfformio. Roedd y perfformwyr wedi dod i adnabod y bachgen yn dda. Bydden nhw'n sgwrsio efo fo'n aml.

"Beth wyt ti'n wneud yma bob dydd?" gofynnodd un o'r cantorion iddo.

"Mi ydw i'n mynd i fod yn ganwr byd-enwog ryw ddydd," meddai

"Wyt ti wedi cael dy hyfforddi i ganu?" oedd cwestiwn un arall o'r cantorion.

"Na," oedd ei ateb.

"Bydd raid i ti gael hyfforddiant felly, neu byddi'n gwastraffu dy amser," meddai un o'r perfformwyr wrtho.

Ond dal i ddod i wrando ar y perfformiadau oedd y bachgen. Un diwrnod penderfynodd y perfformwyr eu bod am wneud rhywbeth i geisio helpu'r bachgen.

"Efallai fod y bachgen yn ddawnus iawn."

"Mae'n sicr yn fachgen penderfynol iawn."

"Beth am i ni roi cyfle iddo?"

Pan gyrhaeddodd y bachgen y Tŷ Opera un min nos roedd y perfformwyr yn disgwyl amdano. "Mae gynnon ni chwarter awr cyn i'r perfformiad ddechrau, felly rydan ni am roi gwrandawiad i ti."

Cerddodd y bachgen yn hyderus ar y llwyfan. Doedd o ddim yn nerfus o gwbl. Wel dyna oedd o am fod – canwr byd-enwog!

Dechreuodd y bachgen ganu. Am rai munudau bu tawelwch mawr. Ond yn sydyn dechreuodd un o'r cerddorion chwerthin dros y lle. Yna dechreuodd y lleill i gyd chwerthin yn afreolus. Roedd y bachgen, druan, yn anobeithiol. Doedd o ddim yn gallu canu mewn tiwn. Roedd ei lais yn drychinebus.

Erbyn hyn roedd rhai o'r cantorion yn teimlo drosto ac meddai un ohonyn nhw, "Mae'n amlwg na fedri di ddim canu ond rwy'n siŵr dy fod yn dda am wneud rhywbeth arall. Mae gynnon ni ddeng munud i wrando arnat ti."

"Mae pobl yn dweud fy mod yn dda am ddweud stori," meddai'r bachgen yn siomedig. Dechreuodd ddweud stori wrth y cantorion. Unwaith eto roedd pawb yn dawel. Ond doedd neb yn chwerthin y tro hwn. Ar ôl i'r bachgen orffen cafodd gymeradwyaeth fyddarol.

"Wnei di sgwennu'r stori yna ar bapur fel y gallwn ei chyhoeddi?" gofynnodd un o'r cantorion. Rhedodd y bachgen adref i sgwennu ei stori ar bapur. Ond doedd o ddim yn gallu sgwennu. Doedd o ddim wedi bod yn yr ysgol i ddysgu sut i sgwennu a sillafu. Ar ôl wythnosau ar wythnosau cafodd y bachgen help i sgwennu ei stori. Ond roedd yr ysgrifen bron yn annealladwy a'r sillafu'n warthus. Awgrymwyd fod y bachgen yn mynd yn ôl i'r ysgol i ddysgu sgwennu a sillafu.

Y diwrnod canlynol roedd yn yr ysgol ben bore. Doedd rhai o'r athrawon ddim yn ei adnabod. Gweithiodd yn galed iawn a daliodd ati i sgwennu storïau. Cyhoeddwyd ei storïau yn ei wlad ei hun a chyfieithwyd llawer o'r storïau i ieithoedd eraill. Daeth y bachgen yn enwog – a'i enw e Hans Christian Andersen.

Adnod: Cofiodd Pedr y gair a lefarodd Iesu. "Cyn i'r ceiliog ganu, fe'm gwedi deirgwaith." Mathew 26:75

Gweddi: Diolch i ti, O Dduw, am roi cyfle arall i bob un ohonom. Amen.

Trafod:

- Sut fyddech chi'n disgrifio Hans pan oedd yn blentyn?
- Chwiliwch am rai storïau Hans Christian Andersen. Mae rhai ohonyn nhw wedi eu cyfieithu i'r Gymraeg.